



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 3 Chwefror 2015 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 3 February 2015 at 6.30pm at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors Graham Evans (*yn y gadair/in the chair*), John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Clive Davies, Ken Edwards, Melfydd George, Neal Jones, Gwynfi Jenkins, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol. The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. D. Graham Evans, bawb i'r cyfarfod gyda chroeso arbennig i ohebydd y "Cambrian News", Mr Norman Williams. Llongyfarchwyd Ysgolion Uwchradd a Chynradd y dref ar eu llwyddiant yn System Cenedlaethol Categorioidio Ysgolion gan osod yr Ysgol Gynradd yn y band gwyrdd, a'r Ysgol Uwchradd yn y band melyn. Atgoffwyd yr aelodau am fore coffi'r Maer a gynhelir yn Ystafell Radley fore Sadwrn, 11 Ebrill; apeliodd am wobrau raffl. Roedd hefyd wedi ymweld â swyddfa i gynorthwyo milwyr yn dychwelyd allan o'r fyddin, sef "Cam Ymlaen" / "Forward Step" yn ddiweddar; yn dilyn hyn, cytunodd y cyngor gwahodd Mrs Julie Pritchard i roi cyflwyniad byr i'r cyngor ar y gwasanaeth.

The Mayor, Cllr D. Graham Evans, welcomed all to the meeting, especially the "Cambrian News" reporter, Mr Norman Williams. Ysgol Uwchradd Aberteifi and Ysgol Gynradd Aberteifi were both warmly congratulated for achieving the Green Band status (Ysgol Gynradd) and the Yellow Band status (Ysgol Uwchradd) in the National School Categorisation System. Members were reminded of the Mayor's coffee morning is to be held at Ystafell Radley on Saturday, 11 April; an appeal was made for raffle prizes. The Mayor visited the office of the "Cam Ymlaen" / "Forward Step" service for servicemen returning to Civvy street following active service; it was agreed to invite Mr Julie Pritchard to give the council a short presentation.

2. Ymddiheuriadau / Apologies:

Y Cyng./Cllr Llwyd Edwards (*yn yr ysbyty/hospitalised*)

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Cyng./Cllr John Adams-Lewis	Yr holl faterion cynllunio/All planning matters
-----------------------------	---

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Ionawr.

Confirmation of Minutes of 6 January Council Meeting.

Tud. 941, eitem 10(b)(ii): I ddarllen: "...y cyngor sir yn delio gyda'r mater o ailagor..."

Page 941, item 10(b)(ii): To read: "...county council is now dealing with the issue to re-open the pathway..."

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiodd y Cyng. Mark Cole bod y cofnodion yn gywir; eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins.

With the above amendment, Cllr Mark Cole proposed that the minutes were correct; this was seconded by Cllr Gwynfi Jenkins.

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Ionawr (Mewn pwyllgor).

Confirmation of Minutes of 6 January Council Meeting (In committee).

Cynigiodd y Cyng. Gwynfi Jenkins bod y cofnodion yn gywir; eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles.

Cllr Gwynfi Jenkins proposed that the minutes were correct; this was seconded by Cllr Catrin Miles.

6. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Cyllideb y Cyngor 20 Ionawr (mewn pwyllgor).

Confirmation of Minutes of 20 January Council Budget Meeting (in committee).

7. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 940, eitem 9(a): Cadarnhaodd y Cyng. Clive Davies bod y band eang uwchgyflym yn awr wedi cyrraedd Aberteifi ac ei fod hyd at ddeg waith yn gyflymach.

Tud. 940, eitem 9(b): Dywedodd y Cyng. Jane Roche bod llythyron wedi eu hanfon yn gwahodd cynrychiolwyr o fudiadau ieuenctid i'r digwyddiad ar 17 Chwefror yn Neuadd y Dref.

Tud. 941, eitem 10(b)(iii): Yn dilyn cyfarfod yr Hapddalwyr ar 22 Ionawr, disgwyllir penderfyniad ar Gynllun Busnes Amlinellol y Bwrdd Iechyd erbyn diwedd Chwefror cyn derbyn y Prosiect Busnes Llawn ymhen saith mis. Cadarnhaodd y rheolwraig (Gill Davies) y byddant ar y safle erbyn mis Gorffennaf. Nid yw "Gofal yn y Gymuned" wedi ei arbrofi er lles y trigolion hyd yn hyn. Cytunwyd bod y cyngor yn gwahodd y Prif Weithredwr (Mr Steve Moore) a'r Cadeirydd (Mrs Bernardine Rees) i roi cyflwyniad.

Tud. 942, eitem 11[229]: Dywedodd y Cyng. Mark Cole bod y llythyr i Amgueddfa Abraham Lincoln yn Illinolis wedi ei anfon. Diolchwyd iddo gan y Maer am ddethol geiriau pwrpasol iawn.

Page 940, item 9(a): Cllr Clive Davies confirmed that the Superfast Broadband was now up and running in Cardigan.

Page 940, item 9(b): Cllr Jane Roche stated that invitations had been sent out to local youth organisations for the event to be held at the Guildhall on 17 February.

Page 941, item 10(b)(ii): Following the Stakeholder meeting held on 22 January, a decision on the Outline Business Plan is expected towards the end of February with the Full Business Case submitted within seven months. The Manager (Gill Davies) confirmed that work will commence on the site by July. It was mentioned that "Care in the Community" had not been achieved at this stage of proceedings. It was agreed to invite the Chief Executive of the Health Board (Mr Steve Moore) and the chair (Mrs Bernardine Rees) to address the council.

Page 942, item 11[229]: Cllr Mark Cole stated that the correspondence to the Abraham Lincoln Museum had been posted. The Mayor thanked Cllr Cole for compiling a most interesting letter.

8. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Ychwanegodd y Maer bod y daith o amgylch y castell fore Sadwrn, 31 Ionawr wedi bod yn fuddiol dros ben, a diolchodd i Mr Glen Johnson am ein harwain. Mae'n debyg bod 400 a bobl wedi manteisio ar y teithiau a chafwyd ymateb cadarnhaol i'r datblygiad. Cynhelir seremoni i agor y castell i drigolion lleol dros gyfnod y Pasg gyda'r agoriad swyddogol i'w drefnu ddiwedd yr haf.

The Mayor added that the castle tour held on 31 January had been a success, and thanked Mr Glen Johnson for leading the tour. More than 400 people had attended the event and a positive response was received. A ceremony to open the castle for the townspeople of Cardigan will be held during the Easter period with the official opening planned for late summer.

9. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A141018	Maesydre, Aberystwyth Road	Change of use from 2 no. flats to 1 no. flat.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A140960-61	HSBC Banking Plc	Existing external ATM to be replaced with new model ATM in same location.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A150041	Land opposite Station Road, Castle Street	Erection of two two-storey 3 bedroom houses and associated works. Replacement of previous application A130205	More information is required with full plans. It is anticipated that surface water and sewerage problems might arise. Parking and entering and leaving the premises at this point could cause traffic congestion.

Cynigiwyd gan y Cyng. Melfydd George ac eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins bod y sylwadau uchod yn cael eu hanfon at y cyngor sir.

It was proposed by Cllr Melfydd George and seconded by Cllr Gwynfi Jenkins that the above observations are forwarded to the county council.

Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Penderfyniad / Decision</i>
A090598	Site adjacent to Llwynpiod Farm, Ferwig Road	Residential development of six dwellings to include two affordable.	<i>Wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> Permission has been granted with conditions (25)
A140690	Pantywyllan, Cambrian Quay	Display of advertisement	<i>Mae'r cais wedi ei wrthod.</i> The application has been refused.
A140965	Former Dewhurst Factory, Mwldan Business Park, Bath House Road	Sub-division and change of use of existing factory unit (use Class B2) to form five factory units (use Class B2/B8) and provision of additional openings to serve new units.	<i>Wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> Permission has been granted with conditions

10. Biliau wedi eu talu / Bills paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
1/1/15	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa</i> /Rent of Office	A7	D/D	£238.33 (0.00)
30/1/15	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd.</i> Simultaneous translation (6/1/15) (20/1/15)	A17	4065	£98.40 (16.40) £119.40 (19.90)
20/12/14	Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Cardiau Teyrngarwch/Loyalty Cards (TCP)</i>	D6	4066	£115.20 (19.20)
1/2/15	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc/Clerk's Salary (Ionawr/January)</i>	A3	4067	£748.88 (0.00)
23/1/15	Menter Aberteifi: <i>Cyflenwad trydan i'r goleuadau Nadolig.</i> Electricity supply for Christmas lights	B1	4068	£35.00 (0.00)
31/1/15	Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd.</i> Rent of Conference Room (6/1/15, 13/1/15, 20/1/15).	A7	4069	£90.00 (15.00)
31/1/15	<i>Bachan Deche / Handyperson (Ionawr/January)</i>	A18	4070	£151.20 (25.20)

Cynigiodd y Cyng. Mark Cole bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Ken Edwards.

Cllr Mark Cole proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Ken Edwards.

Derbyniadau/Receipts: 16/1/15 Ad-daliad gwaith argraffu (CSC) /
Repayment of Town Centre Partnership
stationery (CCC) £746.00
27/1/15 Y Cyng./Cllr Graham Evans £36.00
(*Cardiau Nadolig personol y Maer/*
Mayor's personal Christmas cards)

11. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Gofynnodd y Cyng Adams-Lewis i'r cyngor gefnogi Gorchymyn drafft Llywodraeth Cymru i gadw terfyn cyflymder o 40mya ar y darn o gefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Aberteifi) sy'n ymestyn o bwynt 1,114 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Caemorgan.

Cynigiodd y Cyng. Adams-Lewis yr uchod ac eiliwyd gan y Cyng. Ken Edwards.

Byddai ymestyn y cyfyngder o gylchfan yr ysbyty hyd bentref Penyparc yn fanteisiol, ychwanegodd y Cyng. Adams-Lewis. Gofynnodd y Cyng. Ken Edwards i'r awdurdod ystyried gosod camera teledu cylch gyfyng ar y ffordd osgoi; cytunwyd trafod yr eitem yng nghyfarfod nesaf PACT.

- (ii) Cysgodfan Bysiau Ger y Meini: Mae angen cywiro'r fainc ac un o'r paneli arni; mae'r cyngor sir yn ymchwilio i'w pherchnogaeth.
- (iii) Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig arian i'r cyngor sir helpu sicrhau cyfleoedd chwarae yng Ngheredigion.
- (iv) Mae'r cyngor sir yn hybu digwyddiadau i gontractwyr Ceredigion gofrestru eu gwasanaeth i'r awdurdod: Gwesty Porth, Llandysul (11/2/15, 1.30-3.30yp) a Parc Lodge, Aberystwyth (12/2/15. 9.30-11.30yb).
- (v) Siomedig oedd yr ymateb gan breswylwyr y dre i ddigwyddiad "Galw i Mewn" a drefnwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ionawr. Ychwanegodd y Cyng Mark Cole bod 33 o bobl wedi mynychu'r cyfarfod a bod camddealltwriaeth wedi codi drwy amau mai dim ond y rhai a effeithiwyd gan lifogydd mis Tachwedd oedd yn gymwys i fod yno.
- (vi) Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £40,500 i gadw gwasanaeth "Y Cardi Bach" i fynd o adeg y Pasg eleni am chwe diwrnod yr wythnos yn ystod misoedd yr haf a thri diwrnod yn y gaeaf. Yn ogystal y mae gwasanaeth Bwcabus wedi derbyn £108,000. Mae'r llywodraethau lleol yn bwriadu darganfod ffynonellau ychwanegol i sicrhau gwasanaeth tymor hir iddynt.
- (vii) Mae cyfarfod i'w gynnal yn Neuadd Goffa Sarnau nos Lun, 16 Chwefror o 6.30-8.00yh i drafod dyfodol cartrefi preswyl Yr Hafod ac Awel Deg, Llandysul. Rhif cyswllt: 01545 574000. Mae'r tri chynghorwr sir yn bwriadu mynychu'r cyfarfod.

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Ychwanegodd y Cyng. Miles at y materion personol drwy gyfeirio at driniaeth ddwys Mrs Maureen John a fu'n gynghorydd ar Gyngor Tref Aberteifi am gyfnod. Cytunwyd anfon carden â dymuniadau gorau'r cyngor iddi.
- (ii) Cae Chwarae Pentop: Oherwydd anhwylder y Cyng. Llwyd Edwards, mae'r trefniadau wedi arafu rywfaint. Bydd y Cyng. Miles yn cyfarfod â Mr Mike Phillips, yr adeiladydd, i drefnu symud y prosiect ymlaen cynted â phosib.
- (iii) Siomedig oedd deall bod swyddfa Gyrfaedd Cymru yn cau yn Aberteifi, penderfyniad sydd yn ergyd drom i ieuenctid a phobl ifanc yr ardal sydd yn manteisio o dderbyn arweiniad a hyfforddiant. Bydd rhaid iddynt deithio ymhellach i Hwlfordd a Chaerfyrddin o hyn ymlaen.
- (iv) Yn yr un modd, pryder oedd deall bod gwasanaeth Hyfforddiant Ceredigion yn cael ei ailstrwythuro gyda pheryg i'r swyddfa gau yn Aberteifi.

(c) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) Cyfeiriodd y Cyng. Cole at y pryder am barcio ar y "Glirffordd" yn y dre yn dilyn cwynion gan ymwelwyr a phobl leol bod tocynnau parcio wedi eu dosbarthu i nifer fawr. Yn dilyn cyfarfod gyda Mr Tom Delph-Janiurek (Prif Beiriannydd Rheoli Trafnidiaeth y cyngor sir), disgwylir derbyn argymhellion pellach oddi wrtho. Gofynnwyd am wybodaeth oddi wrth y cyngor sir am yr incwm a dderbynnir gan yr awdurdod oddi wrth fodurwyr yn parcio ym maes parcio Gloster Row.

(a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis requested the council to support the A487 Trunk Road (Cardigan By-pass) 40mph speed limit Order that extends from a point of 1,114 metres south-west of the centre-point of its junction with the Caemorgan Road. Cllr Adams-Lewis proposed the above; seconded by Cllr Ken Edwards. The extending of the order from the hospital roundabout to the village of Penyparc would be preferable, added Cllr Adams-Lewis. Cllr Edwards asked whether the authority could place a CCTV camera on the by-pass; it was agreed to raise this issue at the next PACT meeting.
- (ii) The Ger y Meini bus shelter: The bench within the bus shelter and one of the panels are in need of repair; the county council is investigating ownership of the shelter.
- (iii) The Welsh Government is offering money to help secure play opportunities in Ceredigion.
- (iv) The county council is promoting events to boost construction opportunities and to register contractors for work within the county: Porth Hotel, Llandysul (11/2/15, 1.30-3.30pm) and Park Lodge, Aberystwyth (9.30-11.30am12/2/15).

- (v) The response of residents was disappointing for the “Drop In” session organised by Natural Resources Wales in January. Cllr Mark Cole added that 33 people had attended the meeting and that a misunderstanding had occurred as some people were under the impression that properties affected by the November floods only were invited.
- (vi) The Welsh Government has allocated £40,500 to fund the “Cardi Bach” coastal bus service in south Ceredigion from Easter 2015 for six days during the summer and three days in winter. In addition, the Bwcabus rural service has received £108,000. Efforts will continue by the local authorities concerned to find further funding in the long term.
- (vii) A meeting is scheduled to take place at Sarnau Memorial Hall on Monday, 16 February from 6.30-8.00pm to discuss the way forward for Yr Hafod and Awel Deg, Llandysul, residential homes. Contact number: 01545 574000. The three county council members will attend the meeting.

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles added to the personal matters item by referring to the medical treatment received by a former councillor, Mrs Maureen John. It was agreed to forward a card from the council wishing Mrs John a swift recovery.
- (ii) Pentop Play Area: Due to the incapacity of Cllr Llwyd Edwards, the plans to move the play area forward have somewhat been thwarted. Cllr Miles will meet with the builder, Mr Mike Phillips, presently to move the project forward
- (iii) It was disappointing to learn that the Wales Careers office is closing in Cardigan, a decision that will have a detrimental effect on the young people of the area who receive leadership and training. In future, they will have to travel to offices in Haverfordwest or Carmarthen.
- (iv) Likewise, concern was expressed that the services offered by the Ceredigion Training office will be restructured thereby threatening the closure of its office in Cardigan.

(c) Cllr Mark Cole:

- (i) Cllr Cole referred to the complaints expressed by visitors and townspeople alike regarding the issuing of parking tickets on the “Clearway” (link road). Following a meeting with Mr Tom Delph-Janiurek (the county council Traffic Management Chief Engineer), further proposals are awaited. Information regarding the income generated by the Gloster Row car park is requested from the county council.

12. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
236	CSC/CCC (Stephen Johnson): <i>Ad-daliad am waith argraffu.</i> Repayment of Town Centre Partnership stationery.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
237	CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Adlunio'r briffordd yn Stryd Fawr.</i> High Street Essential Highway Reconstruction/Strengthening, 2/3/15 – 16/3/15.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
238	CSC/CCC (Allan Lewis): <i>Cais i'r cyngor gadarnhau y bydd y gwaith wedi ei gyflawni ar gae chwarae Pentop erbyn 1/3/15.</i> Application for confirmation that the project at the Pentop play area will be completed during 2014-15.	<i>Mae gan y Cyng. Catrin Miles gyfarfod gyda'r adeiladydd i symud y prosiect ymlaen.</i> Cllr Catrin Miles stated that she will meet the builder, Mike Phillips to organise the commencement of the work at Pentop play area.
239	CSC/CCC (Allan Lewis): <i>Balchder Pentrefi – Angen llofnodi dogfen cofnod o'r gwasanaethau.</i> Signature required for the record of the services and facilities sustained by the project (Bandstand).	<i>Cytunodd y Cyng. Catrin Miles lanw'r ffurflen.</i> Cllr Catrin Miles agreed to complete the form.
240	CSC/CCC (Naomi McDonagh): <i>Pecyn diweddariad Cymdogion Cynnes.</i> Update of latest pack (Cymdogion Cynnes)	<i>Ar gael/Available by downloading from:</i> www.ceredigion.gov.uk <i>and search for "Cymdogion Cynnes"</i>
241	CSC/CCC (Clare Goodman): <i>Cydnabyddiaeth am adwaith y cyngor i lwybr cyhoeddus Bro Teifi.</i> Acknowledgment of council's response to the Definitive Map Modification Order claiming footpath at Bro Teifi.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
242	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Llanw Uchel Gwanwyn 2015.</i> Natural Resources Wales: High Spring Tides 2015: 21 Feb., 22 March, 31 August, 28 Sept.	<i>Cytunwyd gosod posteri gyda'r wybodaeth ar faes parcio'r Cei.</i> It was agreed to place notices at the Quay Street car park.

243	Pwyllgor Sioe Sadwrn Barlys: <i>Llythyr yn pryderu am y penderfyniad i gau toiledau canol y dre.</i> Cardigan Barley Saturday Committee: Letter voicing concerns regarding the closure of town centre toilets.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
244	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board: Cyfarfodydd "Sgwrs Iach": Neuadd Goffa Aberaeron (16/2/15, 3.00yp), Canolfan Morlan, Aberystwyth (23/2/15, 3.00yp).</i> "Let's Talk Health" – a series of meetings to provide information and to listen so that services can be improved.	<i>Bydd y Cyng. Catrin Miles yn mynychu'r cyfarfod.</i> Cllr Catrin Miles will attend the meeting.
245	<i>Llywodraeth Cymru: Gorchymyn Cefnffordd yr A487 terfyn cyflymder 40mya 201-</i> Welsh Government: The A487 Trunk road 40mph speed limit Order 201-	<i>Mae'r eitem wedi ei thrafod tan 11(a)(i).</i> The item has been discussed under 11(a)(i).
246	<i>Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Gwahoddiad i fod yn rhan o Archif We y DU.</i> Invitation to participate in the UK Web Archive.	<i>Cytunodd y Cyng. Clive Davies ymateb ar ran y cyngor.</i> Cllr Clive Davies agreed to respond on behalf of the council.
247	British Weights & Measures Association: <i>Gwybodaeth am ddefnydd mesur – rhandiroedd.</i> Units of measurement – gardening allotments	<i>Copiâu i'r Cyng. Melfydd George, John Adams-Lewis ac Akira Shimazaki.</i> Copies forwarded to the above-named councillors.
248	Mr James Orwel Evans, 3 Lôn y Cardi Bach, Cilgerran: <i>Cais i'r cyngor osod goleuadau yn Stryd y Cei.</i> Application to the council to place street lights in Quay Street.	<i>Cytunwyd anfon copi o'r llythyr ymlaen at Mr Neil Garrod.</i> It was agreed to forward a copy of the letter to Mr Neil Garrod, Director of Highways, Property and Works.
249	Mr David Martin, Caerwedros: <i>Cefnogaeth i'r "Cardi Bach".</i> Support for the "Cardi Bach"	<i>Mae'r eitem wedi ei thrafod tan 11(a)(vi).</i> The item has been discussed under 11(a)(vi).
250	Jean-Jacques Faucher (<i>Maer/Mayor of Brioude</i>): <i>Cyfarchiad y flwyddyn newydd/New Year greetings</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
251	<i>Sioe Sadwrn Barlys / Cardigan Barley Saturday Show: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
252	<i>Teenage Cancer Trust: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
253	<i>Cymdeithas Rheilffordd "Y Cardi Bach" Railway Society: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
254	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Ionawr.</i> Handyperson's January report.	<i>I'w drafod tan eitem 15.</i> To be discussed under item 15.
255	4CG 2010 Ltd (Anna Brown): <i>Teifi Basket/Basged Teifi: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.

Allan Lewis:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol.</i> Head of Economic and Community Development Services.
Claire Goodman:	<i>Swyddog Hawliau Tramwy (Map Diffiniol) / Public Rights of Way (Definitive Map) Officer</i>
Keith Morgan:	<i>Pennaeth Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth.</i> Head of Assets and Transportation Services
Stephen Johnson:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service</i>
Naomi McDonagh:	<i>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd – Gwellu Iechyd /</i> Environmental Health Officer – Health Improvement

13. Toiledau Cyhoeddus / Public Conveniences

Mae'r trafodaethau gyda swyddogion cwmni Danfo yn mynd yn eu blaen.

Negotiations with officers from the Danfo company are on-going.

14. Adolygiad yr Asesiad Risg / Review of the Risk Assessment

Cyflwynodd y clerc ddogfen y Risg Asesiad i'r aelodau. Yn dilyn trafodaeth fer, cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod cynnwys y ddogfen yn gywir. Roedd pawb yn gytûn.

The clerk presented a copy of the schedule to the council. After a short discussion, it was proposed by Cllr Dai Brabrook and seconded by Cllr Jane Roche that the full content of the schedule was correct. All members were in favour.

15. **Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 13 Ionawr.

Confirmation of 13 January Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod y cofnodion yn gywir.

It was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Jane Roche that the minutes were correct.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 946 (*Maes Chwarae Netpwll*): Cytunwyd gyda'r argymhelliad nad yw Cyngor Tref Aberteifi yn barod i gymryd cyfrifoldeb am y maes chwarae.

Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Akira Shimazaki.

Page 946 (*Netpool Play Area*): The recommendation of the sub-committee that Cardigan Town council would not take responsibility for the Netpool play area was accepted by council. Proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Akira Shimazaki.

Tud. 947 (*Blodau'r Strydoedd a Gerddi Victoria*): Cadarnhaodd y clerc bod y Bachan Deche yn barod i gyflawni'r gwaith o ddyfrhau'r blodau am bris oddeutu £800/£1,000. Derbyniwyd hyn gan y cyngor.

Cynigiwyd gan y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole.

Page 947 (*Street Flowers and Victoria Gardens*): The clerk confirmed that the Handyperson was prepared to take responsibility for watering the town centre flowers and Victoria Gardens for approximately £800/£1,000. This was accepted by council. Proposed by Cllr Catrin Miles and seconded by Cllr Mark Cole.

Tud. 947 (*Toileddau Cyhoeddus*): Disgwylir cael yr allweddau i doiledau Feidrfair a Lôn y Moch oddi wrth Mr Paul Arnold er mwyn parhau â'r trafodaethau â swyddogion cwmni Danfo.

Page 947 (*Public Conveniences*): Keys for the toilets at Feidrfair and Chancery Lane have been requested from Mr Paul Arnold before proceeding with further negotiations with officers of Danfo.

***Pwll Nofio Aberteifi*:** Dywedodd y Cyng. Catrin Miles bod £10,000 y flwyddyn wedi ei gwtogi o ffynhonnell y cyngor sir.

Cardigan Swimming Pool: Cllr Catrin Miles stated that the county council was withdrawing funding of £10,000 per annum from the pool.

***Menter Aberteifi*:** Cytunodd y Cyng. Jane Roche gysylltu yn rheolaidd â'r Cyng. Neal Jones i sicrhau presenoldeb cynrychiolydd y cyngor mewn cyfarfodydd Menter Aberteifi.

Gofynnodd y Cyng. John Adams-Lewis i Menter Aberteifi ytyried gosod drysau ychwanegol ger y fynedfa ffrynt.

Menter Aberteifi: Cllr Jane Roche agreed to liaise with Cllr Neal Jones to ensure council representation at Menter Aberteifi meetings.

Cllr John Adams-Lewis asked that Menter Aberteifi considers placing additional doors near the main front doors of the building.

***Cadwgan*:** Cytunwyd bod y cyngor yn archwilio'r fainc a gynigiwyd gan yr ymddiriedolaeth i'w lleoli ar y llwybr arfordir ger Rhosfach. Y Cyng. Dai Brabrook i gysylltu â'r Bachan Deche i wneud hyn.

Cadwgan: It was agreed that Cllr Dai Brabrook and the Handyperson inspect the bench offered by Cadwgan to be located on the coast path near Rhosfach.

16. **Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**
Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Dydd y Lluedd Arfog / Armed Forces Day:** Venue – 27 Mehefin / June 2015.
Cytunodd y Darpar Faer, y Cyng. John Adams-Lewis, gysylltu â Mrs Barbara Radley i drefnu'r man a'r lle i gynnal y gwasanaeth.

The Deputy Mayor, Cllr John Adams-Lewis, agreed to contact Mrs Barbara Radley to arrange the venue for the service.

(b) Yswiriant y goleuadau Nadolig newydd / Insuring new Christmas lights.

Mae'r clerch wedi derbyn prisiau yswirio'r goleuadau Nadolig oddi wrth gwmni Zurich: £140.28 yn rhannol am weddill y flwyddyn gyfredol a £355.18 yn flynyddol wedi hynny. Gofynnwyd iddo drefnu'r manylion gyda'r cwmni.

The clerk had obtained quotations for insuring the Christmas lights from Zurich: £140.28 pro rota for the current year, £355.18 annually. He was asked to organise the details with the insurers.

Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a chynhaliwyd eitem 6 mewn pwyllgor.

Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole.

In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed item 6 in committee.

The above was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Mark Cole.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.31yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.31pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date